WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu – **Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1787A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn ei swyddogaeth unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Alison Lewis a Colin Davies
o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer Gwella 4

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ar waith ond mae angen iddo gryfhau rhai meysydd 6

Mae gan y Cyngor bolisi diogelu corfforaethol ond mae angen iddo wneud ei drefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu yn fwy eglur 6

Mae'r Cyngor wedi nodi diogelu fel risg strategol ond mae trosolwg y Pwyllgor Archwilio o'r gofrestr risg yn wan 7

Mae systemau'r Cyngor ar gyfer recriwtio diogel yn cynnig rhywfaint o sicrwydd ond mae angen cryfhau'r rhain 7

Mae'r Cyngor yn darparu rhywfaint o hyfforddiant diogelu ond nid yw wedi asesu a yw'n diwallu ei anghenion ac nid oes ganddo system gadarn ar gyfer cofnodi hyfforddiant staff 9

Gallai'r Cyngor gryfhau'r elfen ddiogelu yn ei drefniadau caffael a rheoli contractau 9

Mae'r Cyngor yn ystyried gwybodaeth am berfformiad o ran diogelu ond mae angen system ar gyfer monitro, gwerthuso ac adrodd ei drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu 10

Atodiadau

Atodiad 1 – Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn unol â'r argymhellion yn adroddiad 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015) yr Archwilydd Cyffredinol 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Adolygwyd trefniadau corfforaethol Cyngor Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Mae rhai trefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu yn gweithredu'n rhanbarthol (trwy Fyrddau Diogelu Gorllewin Morgannwg, Byrddau Diogelu Bae'r Gorllewin gynt, yn yr ardal ddaearyddol hon). Mae ein hadolygiad yn canolbwyntio ar drefniadau corfforaethol y Cyngor ei hun.

2 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gennym i geisio sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol ar waith ar gyfer diogelu. Ystyriwyd canfyddiadau ein hadroddiad yn 2014 ar drefniadau'r Cyngor i gynorthwyo'r broses o ddiogelu plant[1]. Ystyriwyd gennym hefyd gynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru** (Gorffennaf 2015)[2] yr Archwilydd Cyffredinol.

3 Cynhaliwyd yr adolygiad gennym ym mis Ebrill a mis Mai 2019.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

4 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: a yw trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu?

5 Yn gyffredinol, canfuwyd gennym fod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ar waith ond bod angen iddo gryfhau rhai meysydd.

## Cynigion ar gyfer Gwella

#### Arddangosyn 1: Cynigion ar gyfer Gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi eu nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gynorthwyo Diogelu Plant – Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**, Swyddfa Archwilio Cymru, Awst 2014

[2] Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru www.archwilio.cymru

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Mae angen i'r Cyngor nodi'r strwythur llywodraethu cyffredinol ar gyfer diogelu, gan gynnwys sut y mae'r holl wahanol grwpiau sy'n ymwneud â materion diogelu wedi'u cysylltu â'i gilydd a/neu'n adrodd i'w gilydd. |
| C2 | Mae angen i'r Cyngor ddiweddaru ei bolisi diogelu corfforaethol i adlewyrchu'r trefniadau diwygiedig ar gyfer goruchwylio a chraffu ar ddiogelu a chyfeirio at swyddogaeth y Grŵp Diogelu Corfforaethol. |
| C3 | Mae angen i'r Cyngor roi dulliau ar waith i sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau swyddogion ac Aelodau Etholedig penodol y cyfeirir atynt yn y polisi diogelu corfforaethol yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol a bod cydymffurfiad â nhw, gan gynnwys bod â rheolwyr diogelu arweiniol ym mhob maes gwasanaeth. |
| C4 | Mae angen i'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei Grŵp Diogelu Corfforaethol trwy:<br>a) ddatblygu a chytuno cylch gorchwyl i'r grŵp i wneud ei swyddogaeth a'i weithrediad yn fwy eglur;<br>b) diffinio swyddogaeth a chyfrifoldeb swyddogion sydd yn y grŵp;<br>c) adolygu ei aelodaeth i sicrhau bod pob rhan o'r sefydliad yn cael ei chynrychioli;<br>ch) nodi i bwy y mae'r grŵp yn atebol, gan gynnwys a ddylai fod yn atebol i bwyllgor trosolwg a chraffu; ac<br>d) asesu'n rheolaidd effeithiolrwydd y grŵp o ran cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. |
| C5 | Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio wella ei drosolwg o gofrestrau risg y Cyngor. |
| C6 | Mae angen i'r Cyngor gryfhau ei weithdrefnau recriwtio diogel trwy:<br>a) asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i bolisi presennol ar reoleidd-dra archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a phenderfynu a oes angen unrhyw newidiadau;<br>b) cofnodi a chadw'n ffurfiol yr asesiadau risg a gynhelir wrth benderfynu a oes angen archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar swyddogaeth (ac ar ba lefel) ar y system adnoddau dynol gorfforaethol;<br>c) gwella trefniadau ar gyfer cwblhau archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgolion; a<br>ch) chadw cofnod recriwtio canolog ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli i'r Cyngor (gan gynnwys mewn ysgolion). |
| C7 | Mae angen i'r Cyngor gryfhau trefniadau ar gyfer hyfforddiant diogelu trwy:<br>a) asesu a yw'r hyfforddiant presennol ar ddiogelu yn diwallu ei anghenion; a<br>b) sefydlu cofnod canolog dibynadwy o hyfforddiant a gyflawnir fel y gellir cael trosolwg corfforaethol o gydymffurfiad â gofynion hyfforddi. |
| C8 | Dylai'r Cyngor adolygu arferion caffael i sicrhau bod materion diogelu yn cael eu hystyried yn llawn a'u rheoli pan fydd gwasanaethau yn cael eu darparu ar ei ran gan drydydd partïon. |
| C9 | Mae angen i'r Cyngor sefydlu system i asesu ac adrodd ar effeithiolrwydd ei drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ar waith ond mae angen iddo gryfhau rhai meysydd

### Mae gan y Cyngor bolisi diogelu corfforaethol ond mae angen iddo wneud ei drefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu yn fwy eglur

6 Canfuwyd y canlynol gennym wrth ddod i'r casgliad hwn:

- Mae'r Cyngor yn aelod gweithredol o nifer o bartneriaethau aml-asiantaeth sy'n ymwneud â diogelu gan gynnwys Byrddau Diogelu Gorllewin Morgannwg a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'r Cyngor yn gweithio gydag eraill ar amrywiaeth o fentrau sy'n berthnasol i ddiogelu gan gynnwys: Llinellau Cyffuriau[3], Prevent[4], a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae gan y Cyngor hefyd ei grwpiau mewnol ei hun sy'n ymwneud â diogelu. Gallai'r Cyngor nodi'n fwy eglur y strwythur llywodraethu cyffredinol ar gyfer diogelu, gan gynnwys sut y mae'r holl wahanol grwpiau sy'n ymwneud a materion diogelu yn cysylltu â'i gilydd a/neu'n adrodd i'w gilydd.
- Mae polisi diogelu corfforaethol y Cyngor (dyddiedig Tachwedd 2016) yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau swyddogion ac Aelodau Etholedig penodol. Mae angen i'r Cyngor fod â dulliau ar waith i sicrhau ei hun bod y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol a bod cydymffurfiad â nhw.
- Mae'r polisi diogelu corfforaethol yn cynnwys y gofyniad i sicrhau bod rheolwyr diogelu arweiniol ym mhob maes gwasanaeth, ond nid yw'r gofyniad hwn wedi ei fodloni gan bob maes gwasanaeth.
- Dylai'r Cyngor adolygu ei bolisi diogelu i wneud yn siŵr ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol, gan gynnwys diweddaru'r trefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu a chyfeirio at swyddogaeth Grŵp Diogelu Corfforaethol y Cyngor.
- Mae gan y Cyngor Grŵp Diogelu Corfforaethol (sydd â swyddogion y Cyngor yn aelodau) sy'n cyfarfod tua chwe gwaith y flwyddyn. Gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd y grŵp hwn trwy:
  - Ddatblygu a chytuno dogfen cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp i roi mwy o eglurder i'w swyddogaeth a'i weithrediad.
  - Diffinio swyddogaeth a chyfrifoldebau swyddogion yn y grŵp.
  - Adolygu aelodaeth y grŵp i sicrhau bod pob rhan o'r sefydliad yn cael ei chynrychioli. Os bydd y Cyngor yn penodi rheolwyr diogelu arweiniol ym mhob

[3] Term yw Llinellau Cyffuriau a ddefnyddir pan fydd gangiau cyffuriau o ddinasoedd mawr yn ehangu eu gweithrediadau i drefi llai, gan ddefnyddio trais yn aml i hel gwerthwyr cyffuriau lleol allan a chamfanteisio ar blant a phobl agored i niwed i werthu cyffuriau.

[4] Nod y strategaeth Prevent, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn 2011, yw lleihau'r bygythiad i'r DU o derfysgaeth trwy atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth.

gwasanaeth (fel y nodir yn ei bolisi), dylid penderfynu ar eu swyddogaeth o ran aelodaeth y grŵp hwn.

– Nodi i bwy mae'r grŵp yn atebol, gan gynnwys a ddylai fod yn atebol i bwyllgor trosolwg a chraffu. Mae'r Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn cael cofnodion y Grŵp Diogelu Corfforaethol, ond gellid cryfhau'r cysylltiadau pe byddai'r grŵp yn nodi beth yw'r materion allweddol a ble y ceir cyfleoedd i wella i'r Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol weithredu ar y materion hyn.
– Asesu'n rheolaidd effeithiolrwydd y grŵp o ran cyflawni'r canlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni.

## Mae'r Cyngor wedi nodi diogelu fel risg strategol ond mae trosolwg y Pwyllgor Archwilio o'r gofrestr risg yn wan

7 Canfuwyd y canlynol gennym wrth ddod i'r casgliad hwn:

- Mae'r gofrestr risg strategol yn cynnwys diogelu fel risg. Nodir nifer o gamau diogelu yn y gofrestr risg strategol (â dyddiad terfyn o 31 Mawrth 2019) y mae angen i'r Cyngor gymryd camau yn eu cylch o hyd, gan gynnwys:
  – ystyried a oes lle i integreiddio arferion diogelu eraill ar draws y Cyngor mewn gwasanaeth corfforaethol a rennir;
  – datblygu Un Pwynt Cyswllt Gwasanaethau Cymdeithasol i hybu proses gwneud penderfyniadau mwy cadarn a chyson wrth y 'drws blaen'.
- Dim ond dwy gofrestr risg gwasanaeth sy'n nodi diogelu fel risg; Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai ac Iechyd ac Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes.
- Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio y cofrestrau risg diwygiedig yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2018. Nid yw'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu cofrestr risg y Cyngor yn rheolaidd ac nid yw wedi derbyn adroddiad arall ar reoli risg corfforaethol yn y flwyddyn ddiwethaf.

## Mae systemau'r Cyngor ar gyfer recriwtio diogel yn cynnig rhywfaint o sicrwydd ond mae angen cryfhau'r rhain

8 Canfuwyd y canlynol gennym wrth ddod i'r casgliad hwn:

- Mae gan y Cyngor Bolisi a Gweithdrefn Recriwtio Diogel (dyddiedig Mai 2015). Ceir amrywiaeth o archwiliadau cyn-cyflogi y mae'n rhaid eu cynnal gan gynnwys tystlythyrau ysgrifenedig ac archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer rhai swyddi sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed.
- Mae polisi cyfredol y Cyngor ar ba mor rheolaidd y mae'n cwblhau archwiliadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar staff yn amrywio ar draws gwasanaethau. Mae'r holl staff gwasanaethau cymdeithasol perthnasol yn cael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd ond mewn rhannau eraill o'r Cyngor sy'n galw am archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dim ond pan fo staff yn newid swydd y bydd ail archwiliad yn cael ei gynnal. Mae'r Adran Addysg wedi gwneud y penderfyniad y bydd yr holl staff ym mhob ysgol newydd y mae'n eu hagor yn derbyn archwiliad

newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Er bod polisi presennol y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol cenedlaethol, rydym o'r farn y dylai'r Cyngor adolygu ei bolisi presennol ynghylch rheoleidd-dra archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, i asesu risgiau ei ddull presennol a phenderfynu a oes angen iddo wneud unrhyw newidiadau.

- Cyn recriwtio, bydd rheolwr y gwasanaeth yn cynnal asesiad risg o swydd i benderfynu a oes angen i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gynnal archwiliad. Gellid gwella'r broses hon trwy sicrhau bod swyddogion yn cwblhau asesiad risg ysgrifenedig, gan gofnodi'r rhesymau am y penderfyniad ynghylch lefel yr archwiliad sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (neu beidio) a chadw'r wybodaeth hon yn y ffeil adnoddau dynol ganolog.
- Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn cynnal archwiliadau i sicrhau cydymffurfiad ag archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fo'n berthnasol, er enghraifft: staff gwasanaethau cymdeithasol, staff ysgol, gyrwyr trafnidiaeth cludo teithwyr, hebryngwyr a gyrwyr tacsi â chontractau ysgol. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn atebol i reolwyr gwasanaeth perthnasol o ran cydymffurfiad. Pan fo materion sylweddol sy'n peri pryder, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael gwybod am y rhain hefyd. Bu nifer o achosion o ddiffyg cydymffurfio o ran archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn ysgolion. Mae'n bosibl y gallai staff nad ydynt wedi derbyn yr archwiliadau gofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu cyflogi mewn ysgolion. O ran recriwtio staff nad ydynt yn staff ysgol, mae'r Adran Adnoddau Dynol yn ychwanegu cofnodion at Vision (cronfa ddata personél, cyflogres a hyfforddiant y Cyngor) felly ni ddylai neb allu dechrau gyda'r sefydliad heb i archwiliad gofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael ei gynnal. Gan fod ysgolion yn rhoi eu cofnodion eu hunain ar Vision, a bod y system hon yn hysbysu'r gwasanaeth cyflogres wedyn, mae'n bosibl i rywun ddechrau a chael ei dalu heb gael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd y gwasanaeth cyflogres yn gwirio bod person wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg cyn ei ychwanegu at y system gyflogres ond nid os oes ganddynt archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae angen i'r Cyngor ystyried newidiadau posibl i'r system bresennol hon i atal staff rhag gallu dechrau gweithio mewn ysgolion heb i'r archwiliadau angenrheidiol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu cynnal.
- Nid yw'r system adnoddau dynol gorfforaethol yn cadw cofnodion gwirfoddolwyr. Cedwir cofnodion gwirfoddolwyr addysg yn lleol, a chânt eu harchwilio'n fewnol pan fyddant yn ymweld ag ysgolion. Ceir gwirfoddolwyr eraill sy'n gweithio yn y Cyngor, er enghraifft mewn llyfrgelloedd, theatrau, cyfeillion Margam a'r gwasanaeth ieuenctid. I sicrhau cysondeb, cyflawnrwydd a throsolwg corfforaethol priodol o wybodaeth ddiogelu ac i leihau risg, dylai'r Cyngor sicrhau bod un cofnod recriwtio a gedwir yn ganolog ar gyfer pawb sy'n gweithio i'r Cyngor neu'n gwirfoddoli.

## Mae'r Cyngor yn darparu rhywfaint o hyfforddiant diogelu ond nid yw wedi asesu a yw'n diwallu ei anghenion ac nid oes ganddo system gadarn ar gyfer cofnodi hyfforddiant staff

9 Canfuwyd y canlynol gennym wrth ddod i'r casgliad hwn:

- Mae'r Cyngor wedi nodi bod rhywfaint o hyfforddiant diogelu yn orfodol i'r holl staff, gan gynnwys:
  - Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
  - gweithdai i godi ymwybyddiaeth o Prevent;
  - Camfanteisio'n rhywiol ar blant;
  - Llinellau Cyffuriau; a
  - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.
- Mae hyfforddiant diogelu arall yn orfodol i rai gwasanaethau. Mae hyfforddiant diogelu (lefelau 1 – 3) a hyfforddiant amddiffyn plant yn orfodol i staff gwasanaethau cymdeithasol. Mae hefyd yn ofynnol i staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth ieuenctid gael hyfforddiant diogelu. Mewn ysgolion, disgwylir i'r holl staff gael hyfforddiant blynyddol ar ddiogelu ac amddiffyn plant. Nid oedd aelodau eraill o staff y gwnaethom siarad â nhw yn eglur pa hyfforddiant oedd yn orfodol.
- Mae angen i'r Cyngor ystyried a yw'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu ar ddiogelu yn diwallu ei anghenion.
- Nid oes cofnod canolog dibynadwy o hyfforddiant a gyflawnwyd felly nid oes trosolwg corfforaethol o gydymffurfiad â gofynion hyfforddiant. Dylid casglu cofnodion hyfforddiant ar gyfer staff sydd wedi cyflawni hyfforddiant diogelu ar y gronfa ddata adnoddau dynol ond mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r wybodaeth a gedwir ar y system ar hyn o bryd yn gyflawn nac yn gyfredol.

## Gallai'r Cyngor gryfhau'r elfen ddiogelu yn ei drefniadau caffael a rheoli contractau

10 Canfuwyd y canlynol gennym wrth ddod i'r casgliad hwn:

- Mae'r Cyngor wrthi'n diweddaru ei reolau gweithdrefn contractau sydd wedi bod ar waith ers 1998. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae'r Cyngor yn ceisio cryfhau swyddogaeth y rheolwr contractau yn y broses. Nid oes unrhyw gofrestr contractau corfforaethol ar hyn o bryd. Cyfeirir at ddiogelu ar y cam paratoi tendr a gellir dethol cwestiynau cymwysterau diogelu ar gyfer contract. Mae diogelu hefyd wedi'i restru ar Restrau Gwirio'r Weithdrefn Gaffael a Rheoli Contractau, ond rydym o'r farn bod cyfleoedd yn bodoli i gryfhau ystyriaeth o ddiogelu wrth adolygu trefniadau rheoli contractau. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant ar faterion diogelu i reolwyr contractau a staff sy'n cynghori ar gaffael ar gyfer gwasanaethau comisiynu/caffael ac ar gyfer gwaith rheoli contractau parhaus. Ar hyn o bryd, nid yw'r tîm caffael canolog yn derbyn hyfforddiant penodol ar faterion diogelu sy'n berthnasol i

gaffael a rheoli contractau. Dylai'r Cyngor adolygu ei arferion caffael i sicrhau bod materion diogelu yn cael eu hystyried yn llawn a'u rheoli pan fydd gwasanaethau yn cael eu darparu ar ei ran gan drydydd partïon.

- Mae rhai gwasanaethau yn bod yn rhagweithiol o ran rheoli contractau, er enghraifft sefydlwyd swydd swyddog monitro newydd yn yr Uned Trafnidiaeth i Deithwyr i gynyddu nifer yr archwiliadau y gall y Cyngor eu cynnal ar y rhai sydd wedi eu contractio i gludo plant a phobl ifanc i ysgolion.
- Nid yw'r tîm caffael wedi ei gynrychioli yn y grŵp diogelu corfforaethol ar hyn o bryd.

## Mae'r Cyngor yn ystyried gwybodaeth am berfformiad o ran diogelu ond mae angen system ar gyfer monitro, gwerthuso ac adrodd ei drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu

11 Canfuwyd y canlynol gennym wrth ddod i'r casgliad hwn:

- Fe'n hysbyswyd bod materion diogelu yn eitem sefydlog ar agenda'r Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol a bod y Grŵp hefyd yn derbyn y cofnodion gan y Grŵp Diogelu Corfforaethol.
- Mae Aelodau Etholedig yn derbyn nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i ddiogelu, gan gynnwys:
  - Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau archwilio mewnol pan fydd materion o bryder yn cael eu codi, gan gynnwys diffyg cydymffurfiad ag archwiliadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd.
  - Derbyniodd Bwrdd y Cabinet ar Addysg, Sgiliau a Diwylliant adroddiad diweddaru yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2019 ar weithgareddau diogelu mewn ysgolion a'r gyfarwyddiaeth addysg dros y flwyddyn ddiwethaf a chynlluniau ar gyfer y 18 mis nesaf. Nododd yr adroddiad feysydd i'w datblygu a'r camau a gynigir i barhau i gryfhau trefniadau.
  - Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn llunio adroddiad blynyddol sy'n cynnwys adolygiad o faterion diogelu yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai.
  - Ceir adroddiad blynyddol ar rianta corfforaethol.
- Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn nodi y bydd adroddiad diogelu corfforaethol blynyddol ar gyfer craffu yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei wneud. O dan y Polisi Diogelu Corfforaethol, dylai cyfarwyddwr pob gwasanaeth lunio adroddiad ar eu trefniadau diogelu a fydd yn cyfrannu at Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd, felly nid oes unrhyw asesiad cyffredinol o ba mor dda y mae'r Cyngor yn rheoli diogelu yn gorfforaethol.
- Mae'r Cyngor yn adrodd gwybodaeth am berfformiad yn ymwneud â diogelu gan gynnwys gwybodaeth a gynhyrchir gan wasanaethau cymdeithasol ac addysg a gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn nangosyddion perfformiad allweddol y cynllun

corfforaethol. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor ystyried a allai cyfres o fesurau perfformiad a ddatblygir yn benodol i asesu effeithiolrwydd ei drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu helpu i gryfhau craffu a throsolwg yn y maes hwn. Er enghraifft, gallai'r Cyngor ddefnyddio'r meysydd a nodir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru**, a oedd yn cynnwys:

- casgliadau adolygiadau archwiliadau/arolygiadau mewnol ac allanol;
- data perfformiad wedi'u seilio ar wasanaethau;
- data personél allweddol fel hyfforddiant diogelu, ac archwiliadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a
- pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfiad â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor.

# Atodiad 1

## Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn unol â'r argymhellion yn adroddiad 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015) yr Archwilydd Cyffredinol

Arddangosyn 2: cynnydd yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol

| Argymhellion o'r adroddiad cenedlaethol | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol |
|---|---|
| A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | Mae'r Cyngor wedi penodi uwch-swyddog arweiniol ac aelod arweiniol dros ddiogelu a nodir manylion y rhain yn y Polisi Diogelu Corfforaethol sydd ar gael ar safle mewnrwyd y Cyngor.<br>(Gweler paragraff 6 a'r cynigion ar gyfer gwella) |
| A2 Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | Mae gan y Cyngor bolisi diogelu corfforaethol ond mae angen iddo wneud ei drefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu yn fwy eglur.<br>(Gweler paragraff 6 a'r cynigion ar gyfer gwella) |
| A3 Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | Mae systemau'r Cyngor ar gyfer recriwtio diogel yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ond mae angen cryfhau'r rhain.<br>(Gweler paragraff 8 a'r cynigion ar gyfer gwella) |

| Argymhellion o'r adroddiad cenedlaethol | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol |
|---|---|
| A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | Mae'r Cyngor yn darparu rhywfaint o hyfforddiant diogelu ond nid yw wedi asesu a yw hyn yn diwallu ei anghenion ac nid oes ganddo system gadarn ar gyfer cofnodi hyfforddiant staff.<br>(Gweler paragraff 9 a'r cynigion ar gyfer gwella) |
| A6[5] Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor. | Mae'r Cyngor yn ystyried gwybodaeth am berfformiad o ran diogelu ond mae angen system ar gyfer monitro, gwerthuso ac adrodd ei drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu.<br>(Gweler paragraff 11 a'r cynigion ar gyfer gwella) |
| A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor. | Mae'r Archwiliad Mewnol yn adrodd bod materion diogelu yn cael eu hystyried yn yr adolygiadau y mae'n eu cynnal. Mae hefyd yn llunio adroddiadau rheolaidd ar faterion diogelu penodol h.y. cydymffurfiad ag archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |
| A8 Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | Mae'r Cyngor wedi nodi diogelu fel risg strategol, ond mae trosolwg y Pwyllgor Archwilio o'r gofrestr risg yn wan.<br>(Gweler paragraff 7 a'r cynigion ar gyfer gwella) |

[5] Cyfeiriwyd Argymhelliad 5 at Lywodraeth Cymru yn hytrach na chynghorau felly nid yw wedi ei gynnwys yn y rhestr uchod.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru